

Swyddog Cofnodion Iechyd

Cyflwyniad

Mae staff cofnodion iechyd yn casglu, yn storio ac yn adalw cofnodion sy'n cael eu defnyddio mewn diagnosis a thriniaeth. Mae hon yn swydd allweddol yn y GIG oherwydd nifer helaeth y gweithwyr gofal iechyd proffesiynol sy'n ymwneud â gofal claf y mae angen iddynt gael at yr wybodaeth hanfodol hon ar yr rybudd.

Byddwch hefyd yn hyrwyddo ac yn cefnogi'r defnydd effeithiol o ddata, gwybodaeth a thechnoleg yn y GIG er mwyn cefnogi a gwella iechyd a'r ffordd y mae gofal yn cael ei ddarparu i'r claf.



Adwaenir hefyd fel

- Clerc, Cofnodion Iechyd
- Clerc Cofnodion Meddygol
- Staff Cofnodion Iechyd

Gweithgareddau Gwaith

Fel Swyddog Cofnodion Iechyd, byddwch yn casglu, yn trefnu, yn storio ac yn adalw cofnodion sy'n cael eu defnyddio mewn diagnosis a thriniaeth.

Byddwch hefyd yn hyrwyddo ac yn cefnogi'r defnydd effeithiol o ddata, gwybodaeth a thechnoleg yn y GIG i gefnogi a gwella iechyd a'r ffordd y mae gofal yn cael ei ddarparu i'r claf.

Os byddwch yn dewis gweithio yn y maes Cofnodion Iechyd, gallech wneud un o'r swyddi canlynol:

Cynorthwydd Cofnodion Iechyd

Fel Cynorthwydd Cofnodion Iechyd, byddwch yn gwneud gwaith gweinyddol rheolaidd mewn perthynas â chofnodion iechyd, er enghraifft:

- lleoli, adalw, olrhain a dosbarthu cofnodion iechyd cleifion a nodiadau achos
- cynnal cofnodion cleifion a nodiadau achos
- ffeilio cofnodion cleifion a nodiadau achos
- cadw cyfrinachedd cleifion
- cyfranogi mewn archwiliadau o gofnodion cleifion

Swyddog Cofnodion Iechyd

Fel Swyddog Cofnodion Iechyd, byddwch yn gyfrifol am feysydd penodol mewn adran cofnodion iechyd, er enghraifft:

- rheoli llinell uniongyrchol y staff cofnodion iechyd
- rheoli gweithredol ar gofnodion iechyd mewn adran
- cyfrannu at ddatblygu polisiau, gweithdrefnau ac arferion mewn perthynas â chofnodion iechyd
- cynorthwyo i ddatblygu archwiliadau cofnodion iechyd

Rheolwr Cofnodion Iechyd

Fel Rheolwr Cofnodion Iechyd, byddwch yn gyfrifol am reolaeth, perfformiad a datblygiad cyffredinol y gwasanaeth cofnodion iechyd mewn sefydliad neu adran. Er enghraifft:

- cyfathrebu a chyd-drafod materion anodd gydag uwch reolwyr a staff clinigol
- gwella ansawdd y gwasanaeth

- cynllunio ariannol
- sicrhau bod safonau ansawdd yn cael eu cynnal
- rhoi cyngor ac arweiniad i amrywiaeth o bobl ar bob agwedd ar gofnodion iechyd

Mae'n bosibl y bydd y gallu i ddarllen, ysgrifennu a siarad Cymraeg o fantais ichi wrth chwilio am waith yng Nghymru.

Rhinweddau Personol a Sgiliau

Mae rhai sgiliau a phriodweddau a all fod yn ddefnyddiol wrth fynd ar drywydd gyrfa mewn cofnodion iechyd:

- cyfathrebu - bydd cysylltiad â chleifion mewn rhai swyddi, felly bydd gofyn sgiliau effeithiol o ran cyfleu gwybodaeth i gydweithwyr, cleifion, cleientiaid, eu perthnasau a'u gofalwyr
- casglu a threfnu gwybodaeth - mae llawer o swyddi'n mynnu sgiliau cyflwyno a threfnu da, fel swyddi rheoli gwybodaeth
- technoleg gwybodaeth - bydd angen sgiliau technegol da arnoch a'r gallu i bennu problemau mewn modd systematig
- rhifedd - mae sgiliau rhifedd neu ddadansoddi lefel uchel yn allweddol i lawer o swyddi rheoli

Uwchlaw popeth, mae angen brwdfrydedd arnoch, y gallu i weithio'n gywir dan bwysau ac ar eich menter eich hun, a'r gallu i gyd-dynnu ac eraill.

Cyflog a Chyfleoedd

Cyflog

Fel Swyddog Cofnodion Iechyd, cewch eich talu yn unol â graddfeydd cyflog swyddogol y GIG, sef:

- Cychwynnol - Band 2: £17,652 - £19,020
- Gyda phrofiad - Band 3: £18,813 - £20,795

Oriau gwaith

Mae'r rhan fwyaf o glercod yn gweithio 37.5 awr, o ddydd Llun i ddydd Gwener. Efallai bydd trefniadau gweithio amser llawn, rhan amser, dros dro a hyblyg ar gael. Efallai bydd angen gweithio gyda'r hwyr a gwneud gwaith shifftiau yn adrannau damweiniau ac argyfwng ysbytai.

Ble allwn i weithio?

Mae cyflogwyr yn cynnwys y GIG (ar wardiau ysbytai, mewn derbynfeydd, swyddfeydd a chanolfannau iechyd), ac ysbytai preifat.

Mae cyfleoedd mewn trefi a dinasoedd ledled y wlad.

Ble caiff swyddi gwag eu hysbysebu?

Hysbysebir swyddi gwag ar wefan swyddi'r GIG, mewn papurau lleol/cenedlaethol, ar wefan Dod o Hyd i Swydd, ar fyrddau swyddi ac mewn Canolfannau Byd Gwaith.

Llwybrau Mynediad a Hyfforddiant

Llwybrau mynediad Nid oes angen Safon Uwch arnoch er mwyn bod yn Swyddog Cofnodion Iechyd. Fodd bynnag, gallai cymwysterau Safon Uwch a phrofiad gwaith perthnasol eich helpu i symud ymlaen yn y pen draw i swydd Rheolwr Cofnodion Iechyd. Bydd angen ichi ddechrau cynllunio'n ofalus pa bynciau Safon Uwch rydych am eu hastudio. Yna, pan fyddwch yn astudio eich Safon Uwch, bydd angen ichi ddechrau chwilio am swyddi addas.

Profiad gwaith Mae gan rai newydd-ddyfodiaid sgiliau perthnasol mewn gwaith clerigol a gweinyddol, er enghraifft. Yn benodol, byddai sgiliau bysellfwrdd yn ddefnyddiol. **Dilyniant**

Gall Swyddogion Cofnodion Iechyd symud ymlaen i swyddi rheoli cofnodion iechyd wedi iddynt gael hyfforddiant a phrofiad pellach. Efallai bydd rhai'n symud i yrfaeodd codio clinigol, derbynfydd meddygol neu ysgrifenyddol.

Deddf Ailsefydlu Troseddwyr Mae Cynorthwyr, Swyddogion neu Reolwyr Cofnodion Iechyd yn un o eithriadau Deddf Ailsefydlu Troseddwyr 1974. Mae hyn yn golygu fod rhaid i chi roi gwybodaeth i gyflogwr am unrhyw gollfarnau, rhybuddion neu geryddon sydd wedi darhod neu rai sydd heb ddarhod, os gofynnir i chi am hynny. Mae hyn yn wahanol i yrfaeodd eraill, lle bydd rhaid i chi ddatgelu gwybodaeth ynghylch collfarnau sydd heb ddarhod yn unig os gofynnir i chi wneud hynny.

Cymwysterau

I gael lle ar Brentisiaeth Lefel Ganolradd neu Uwch Brentisiaeth, bydd angen pum TGAU gradd C/4 neu uwch arnoch fel arfer, a hynny efallai'n cynnwys Saesneg a mathemateg.

Cyfleoedd i Oedolion

Terfynau Oedran

Mae'n anghyfreithlon i unrhyw sefydliad bennu terfyn oedran sy'n cyfyngu ar allu ymgeiswyr i gael gwaith, addysg neu hyfforddiant, oni allan nhw ddangos fod angen go iawn i bennu'r terfynau hyn.

Mynediad

Mae gan rai ymgeiswyr sgiliau perthnasol, er enghraifft, sgiliau clericyddol a gweinyddol. Gallai sgiliau bysellfwrdd fod yn ddefnyddiol iawn.

Efallai gallech gael gwaith trwy wneud Prentisiaeth Lefel Ganolradd neu Prentisiaeth Lefel Uwch mewn Gwasanaethau Cymorth Gofal Iechyd.

Ystadegau

- Mae 28% o bobl sy'n gweithio fel clerod cofnodion iechyd yn gweithio'n rhan amser .
- Mae 23% ohonyn nhw yn gweithio oriau hyblyg.
- Mae gan 9% o weithwyr swyddi dros dro.

Gwybodaeth Bellach

Cysylltiadau

- **Apprenticeships**
National Apprenticeship Service (NAS)
Ffôn 0800 015 0400
E-bost nationalhelpdesk@findapprenticeship.service.gov.uk
Gwefan www.apprenticeships.org.uk
- **Skills Development Scotland - Modern Apprenticeships**
Ffôn 0800 9178000
E-bost info@skillsdevelopmentscotland.co.uk
Gwefan www.myworldofwork.co.uk/modernapprenticeships
- **City & Guilds**
Cyfeiriad 1 Giltspur Street, London EC1A 9DD
Ffôn 020 7294 2468
E-bost learnersupport@cityandguilds.com
Gwefan www.cityandguilds.com
- **NHS Careers**
Gwefan <http://www.weds.wales.nhs.uk/contact-nhs-wales-careers/>
- **NHS Wales Careers Information**
Publisher: National Leadership and Innovation Agency for Healthcare
E-bost abm.wedsteam@wales.nhs.uk

Gwefan www.wales.nhs.uk/sitesplus/829/page/36090

- **NHS Jobs**
Gwefan www.jobs.nhs.uk
- **Step into the NHS**
NHS careers
Ffôn 0345 6060655
Gwefan www.stepintothens.nhs.uk
- **Skills for Health**
Skills for the health sector
Cyfeiriad Goldsmiths House, Broad Plain, Bristol BS2 0JP
Ffôn 0117 9221155
E-bost office@skillsforhealth.org.uk
Gwefan www.skillsforhealth.org.uk
- **Association of Medical Secretaries, Practice Managers, Administrators and Receptionists (AMSPAR)**
Ffôn 020 7387 6005
E-bost info@amspar.com
Gwefan www.amspar.com
- **Institute of Health Records and Information Management (IHRIM)**
Cyfeiriad Ground Floor Office Suite, Marshall House, Heanor Gate Road, Heanor, Derbyshire DE75 7RG
Ffôn 01773 713927
E-bost ihrim@zen.co.uk
Gwefan www.ihrim.co.uk
- **Careers Wales - Welsh Apprenticeships**
Ffôn 0800 028 4844
Gwefan ams.careerswales.com/
- **People Exchange Cymru (PEC)**
Public sector recruitment portal for Wales
E-bost peopleexchangecymru@gov.wales
Gwefan www.peopleexchangecymru.org.uk/home

Gyrfaoedd sy'n gysylltiedig

- Derbynnydd Meddygol
- Rheolwr Practis
- Ymarferydd Hybu Iechyd
- Rheolwr Gwasanaeth Iechyd